



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

YMCHWIL

# Baromedr Twristiaeth (Arolwg effaith coronafeirws (COVID-19)): cam 2 2020 (crynodeb)

Er mwyn darparu data effeithiol ac i helpu i gefnogi'r diwydiant trwy'r amseroedd heriol hyn, cynhaliodd Croeso Cymru arolwg ffôn o fusnesau twristiaeth yng Nghymru.

Cyhoeddwyd gyntaf: 9 Ebrill 2020

Diweddarwyd ddiwethaf: 9 Ebrill 2020

## Cynhaliwyd yr arolwg rhwng y 26 a 31 Mawrth 2020

Cynhaliodd Croeso Cymru arolwg ffôn gyda 402 o fusnesau twristiaeth yn ymwneud â:

- llety â gwasanaeth

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/baromedr-twristiaeth-arolwg-effaith-coronafeirws-covid-19-cam-2-2020-crynodeb-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.


Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- hunanarlwyo
- carafanau a gwersylloedd
- hosteli
- atyniadau
- darparwyr gweithgareddau
- bwytai
- tafarndai
- chaffis

Mae'r sefyllfa o ran COVID-19 yn symud yn gyflym iawn. Cynhaliwyd y cyfweiliadau hyn tua wythnos ar ôl i'r Prif Weinidog ofyn gyntaf i'r cyhoedd aros gartref oni bai bod angen teithio, gan annog cau busnesau sy'n cynnig cynhyrchion a gwasanaethau nad ydynt yn hanfodol dros dro.

## Effaith ar staff

### C6: A yw'ch busnes wedi profi unrhyw effaith gan COVID-19 ar staff ers dechrau'r achosion? (digymell)



Gofynnwyd y cwestiwn hwn i fusnesau sy'n cyflogi staff yn unig

### C6: A yw'ch busnes wedi profi unrhyw effaith gan COVID-19 ar staff ers dechrau'r achosion? (digymell) (MS Excel)

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/baromedr-twristiaeth-arolwg-effaith-coronafeirws-covid-19-cam-2-2020-crynodeb-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).


Mae hanner (50%) y busnesau wedi gorfod gofyn i staff gymryd absenoldeb â thâl. Yn gyffredinol, mae perchnogion busnes yn eu talu nhw ym mha bynnag fodd y gallant, hyd yn oed allan o'u pocedi eu hunain, ac maent yn dibynnu ar y cyllid a addawyd ar gyfer y Cynllun Cadw Swyddi am ad-daliad.

Mae tua traean (35%) y busnesau wedi gorfod gofyn i staff gymryd absenoldeb di-dâl.

Dim ond 4% o fusnesau sydd hyd yma wedi diswyddo staff. Fodd bynnag, mae angen y cyllid a addawyd ar gyfer y Cynllun Cadw Swyddi ar frys gan fod cyfyngiad ar ba mor hir y gall busnesau dalu cyflog eu staff cyn iddynt redeg allan o arian parod.

## Ansicrwydd ynghylch cymhwysedd i gael cymorth ariannol

### C12: Pa un o'r cymorth ariannol canlynol gan y llywodraeth sy'n benodol i'r argyfwng COVID-19 ydych chi'n credu bod eich busnes/atyniad yn gymwys i gael?



### C12: Pa un o'r cymorth ariannol canlynol gan y llywodraeth sy'n benodol i'r argyfwng COVID-19 ydych chi'n credu bod eich busnes/atyniad yn

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/baromedr-twristiaeth-arolwg-effaith-coronafeirws-covid-19-cam-2-2020-crynodeb.html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## **gymwys i gael? (MS Excel)**

Mae rhai (37%) busnesau yn credu eu bod yn gymwys i gael grant gan y llywodraeth, ond dywed hanner (50%) nad ydyn nhw'n gwybod a ydyn nhw'n gymwys ai peidio.

Yn yr un modd â chymorth ariannol arall - nid yw llawer o fusnesau yn gwybod a ydynt yn gymwys. Dywed 38% eu bod yn gymwys i gael rhyddhad ardrethi busnes, ond nid yw 48% yn gwybod.

Ymhlith y rhesymau dros y dryswch mae:

- anhawster cysylltu gyda banciau i drafod eu sefyllfa
- ddim yn gwybod sut neu a yw'r gefnogaeth yng Nghymru yn wahanol i Loegr
- canfod bod y broses ymgeisio yn rhy anodd i ymchwilio iddi

Mae angen eglurder ar y busnesau i ddeall os ydynt yn gymwys a sut i wneud cais.

## **Bylchau mewn cyllid**

Mae busnesau'n gwerthfawrogi'r gefnogaeth a addawyd gan y llywodraeth, ond yr agweddau lle gallent eu gweld yn anodd iw hariannu yw:

- cyflogau: y mae'n rhaid i'r busnes eu talu o hyd nes i 80% o'r arian Cynllun Cadw Swyddi gael ei dalu
- biliau a llog ar fenthyciadau a gymerwyd eisoes
- ad-dalu blaendaliadau a balansau i gwsmeriaid
- mae angen staff ar rai busnesau er gwaethaf y diffyg cwsmeriaid nac incwm er mwyn cynnal neu sicrhau fod eu safle yn saff

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/baromedr-twristiaeth-arolwg-effaith-coronafeirws-covid-19-cam-2-2020-crynodeb-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

# Mesurau a gymerwyd i gynnal y cwmni

Mae busnesau yn y diwydiant yn gwneud y canlynol i geisio cynnal eu cwmni:

- gwasanaethau amgen fel siopau tecawê neu gartrefu'r digartref
- siarad â'r banc am drefniadau gorddrafft ac ad-daliadau benthyciad
- torri costau i'r lleiafswm
- hawlio cefnogaeth y llywodraeth
- trosglwyddo archebion yn hytrach nag ad-dalu lle bo hynny'n bosibl

## Effaith coronafeirws ar y diwydiant yn y dyfodol

Mae bron pob busnes (96%) yn disgwyl i effaith y sefyllfa yn y dyfodol fod yn 'sylweddol negyddol'. Ni does modd gorbwysleisio effaith y straen y mae hyn yn ei achosi i berchnogion busnes, gan eu bod yn cael trafferth dod o hyd i ffyrdd o oroesi yn ariannol yn ystod cyfnod nad oes diwedd clir iddo ar hyn o bryd.

Yr unig effaith gadarnhaol mae busnesau yn gobeithio ei weld ydi cynnydd mewn twristiaeth ddomestig wedi i'r argyfwng ddod i ben.

## Cyswllt

Joanne Corke

Rhif ffôn: 0300 025 1138

E-bost: [ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru](mailto:ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru)

Rhif ymchwil gymdeithasol: 30/2020

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/baromedr-twristiaeth-arolwg-effaith-coronafeirws-covid-19-cam-2-2020-crynodeb-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/baromedr-twristiaeth-arolwg-effaith-coronafeirws-covid-19-cam-2-2020-crynodeb-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we [Baromedr Twristiaeth \(Arolwg effaith coronafeirws \(COVID-19\): cam 2 2020 \(crynodeb\)](#) a lawrlwythwyd.

Ewch i <https://llyw.cymru/baromedr-twristiaeth-arolwg-ffaith-coronafeirws-covid-19-cam-2-2020-crynodeb-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/baromedr-twristiaeth-arolwg-effaith-coronafeirws-covid-19-cam-2-2020-crynodeb-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).